

Cyngor Cymuned Cerrig-y-Drudion  
Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar y 13eg Fedi 2016

Presennol -Hefin Edwards Cadeirydd, Menai Hughes, Einion Edwards, Ieuan Jones, John D Jones, Ffion Williams. Alun Jones, Prys Ellis, Cyng Peter Lewis Cyng BS Conwy, Caerwyn Roberts Clerc.

Ymddiheuriadau – Guto Jones, Helen Ellis  
Datgan diddordeb. Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

Aelod Newydd, Croesawyd Mrs Ffion Williams yn aelod cyfethol o'r Cyngor Cymuned.

Cofnodion - Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 12fed Orffennaf 2016.

Materion yn Codi :

[1] Yr Heddlu

Croesawyd yr heddgidwad Martin Jones i'r cyfarfod a chafwyd adroddiad ganddo ynglŷn â materion plismona yn y Sioe flynyddol a gynhaliwyd yn ddiweddar.

Dywedwyd wrtho hefyd bod trafferthion ynglŷn â moduron yn mynd yn gyflym hebio'r ysgol.

Cytunodd i ymweld â'r safle.

Eglurodd y Cyng. Peter Lewis y byddai'n gwneud ymholiadau ynglŷn â bwriad y Cyngor Sir i osod gwaharddiad 20 m.y.a. yn y lleoliad.

[1.1] Llwybr Cyhoeddus Rhif 51 [Llwybr Bach]

Yn absenoldeb unrhyw gysylltiad gan y Cyngor Sir. Y clerch i wneud ymholiadau pellach.

[1.2] Dwr Cymru/ Byngalo'r Alwen/ Lluniau/Arteffactau

Eglurodd y clerch bod cynnwys y lluniau ac ymlaen a dderbyniwyd yn siomedig iawn. Y clerch i gysylltu ymhellach gyda Mrs Arfona Evans.

[1.3] Coeden ar gyfer Bryn Hyfryd, Maes Aled

Dywedodd y Cyng. Peter Lewis bod swyddog o'r Cyngor Sir yn trefnu i gael golwg.

[1.4] Peiriant Arian Parod Tan Llan

Nodwyd ateb y cwmni i sylwadau'r Cyngor bod y peiriant yn aml ddim yn gweithio. Y clerch i drafod y mater gyda Mr Owain Roberts.

Y brif Agenda

[1.5] Materion Cynllunio

Newid defnydd tir yn Llyn Brenig i le chwarae antur. Canolfan Ymwelwyr, Llyn Brenig.

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cais uchod.

[1.6] Costau Claddu

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â chostau claddu ayb, penderfynwyd fel a ganlyn

[a] Bedd Newydd £120.00/ i rywun oddi allan i'r gymuned £150.00

[b] Ail agor £60.00

[c] Gosod carreg £50.00

[d] Claddu llwch £30.00

[e] Torri enw ychwanegol £15.00

[1.7] Llythyr Ms Helen Williams

Cyfeiriodd y clerc at gais gan Ms Williams i brynu darn bach o Cae Llwyd sydd yn ffinio ar rhif 4 Cae Llwyd. Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad mewn egwyddor ac yn y lle cyntaf i gwrdd ar y safle os iddi brynu'r eiddo.

[1.8] Warden y Ganolfan/Camerâu Cylch Agos

Cyfeiriodd y clerc at lythyr oddiwrth Warden y Ganolfan yn amlinellu ei bod yn ceisio grant o £2,000.00 at gamerâu cylch agos, ond bod angen £721.00 ychwanegol i gyrraedd y cyfanswm sydd ei angen. Amlinellwyd y dylai'r warden gysylltu yn y lle cyntaf hefo Haf Jones Cyngor BS Conwy i geisio'r arian ychwanegol.

[1.9] Elusen Addysgol

Penderfynwyd cyfrannu £500.00 tuag at yr elusen.

[2] Llwybr o gyferbyn a'r Ysgol i groesffordd Cefn-Brith

Y clerc i gysylltu mhellach gydag adran priffyrdd y Cyngor Sir, i geisio wyneb caled ar y llwybr.

[2.1] Torri Gwair

Deallwyd nad yw'r gwair yn cael ei dorri o gwmpas ymylon arwyddion, waliau a.y.b. Y clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir.

[2.2] Ailgyrchu

Deallwyd nad oedd bagiau ar gyfer gadael dillad/batris/ offerynnau trydan a.y.b. ar gael i drigolion Ty'n Rhyd. Y clerc i wneud ymholiadau gyda'r Cyngor Sir, ynghyd hefyd ymholiadau ynglŷn a threfniadau casglu ysbwriel [biniau duon] sydd pob tair wythnos, os i'r tywydd fod yn ddrwg.

Cadeirydd \_\_\_\_\_